

Cyngor Cymuned Cerrig-y-Drudion
Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar y 24ain Fai 2016

Presennol –Hefin Edwards Cadeirydd, Menai Hughes , Ieuan Jones, John D Jones, Helen Ellis, Alun Jones, Cyng. Peter Lewis Cyngor BS Conwy, Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau – Prys Ellis, Guto G Jones, Einion Edwards.

Cofnodion – Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 5ed Ebrill 2016.

Datgan diddordeb. Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Materion yn Codi :

[1] Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu yn bresennol

[1.1] Llwybr Cyhoeddus Rhif 51 [Llwybr Bach]

Y clerch i anfon gwahoddiad I Mr Tom Gravett [Cyngor BS Conwy] i'r cyfarfod nesaf.

[1.2] Hwylusydd Tai Gwledig

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.3] Dwr Cymru/ Byngalo'r Alwen/ Lluniau/Arteffactau

Y clerch i gysylltu'n mhellach gyda Mr Siôn Pritchard.

[1.4] Asesiad Risg/Ystafell Blwyf

Legionella - Cyfeiriodd y clerch at ohebiaeth gan Mr Steffan Richards [Cyngor BS Conwy] yn amlinellu nad oedd yn debyg bod angen prawf legionella yn yr ystafell blwyf.

[1.5] Ffyrdd Anghen ei Ail Wynebu

Dywedodd y Cyng Peter Lewis bod y mater wedi ei anfon ymlaen i ERF y Cyngor Sir.

[1.6] Pen-blwydd y Frenhines yn 90 deg oed

Deallwyd bod y Brifathrawes yn cysylltu gyda'r Llywodraethwyr ynglŷn â'r mater.

[1.7] Coeden ar gyfer Bryn Hyfryd Maes Aled

Nodwyd nad oedd gair pellach gan y Cyngor Sir. Y clerch i gysylltu eto.

Y brif Agenda

[1.8] Ceisiadau Cynllunio

[a] Newid defnydd adeilad o gaffi/siop i feithrinfa –Dragonfly Fisheries, Cerrig-y-Drudion
Penderfynwyd anfon y sylwadau canlynol; Mae llyn pysgota o fewn y lleoliad, a hefyd mae ar fin ffordd yr A5, sydd yn bryderus. Bydd rhaid goruchwyllo'r plant yn ofalus iawn

[b] Cadw peiriant arian parod a osodwyd.

[c] Arwydd heb olau ar y peiriant arian parod. Caffi Tan Llan, Cerrig-y-Drudion.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i geisiadau [b] a [c]

[1.9] Cyfrifon 2015/16 Archwiliad yr Archwiliwr Mewnol

Cyfeiriodd y clerch at y sylwadau canlynol gan yr archwiliwr

[a] Roedd sic rhif 100722 am £17.00 wedi ei adael allan o'r cyfrifon am y flwyddyn 2014/15

[b] Nid oedd derbyniadau am logi'r Ystafell Blwyf ar taliadau claddu wedi ei hanfon.

Penderfynwyd cymeradwyo'r cyfrifon am y flwyddyn ariannol 2015/16. Y clerch i gywiro'r materion a wnaed gan yr archwiliwr.

[2] Sedd Wag y Cyngor

Dywedodd y clerch bod sedd wag wedi ei hysbysebu gyda dyddiad cau 27ain Fai 2016.

[2.1] Peiriant Arian Parod Tan Llan

Deallwyd bod y peiriant yn rhedeg allan o arian yn aml. Y clerch i gysylltu gyda'r cwmni.

[2.2] Torri Gwair

Deallwyd nad yw gwair yn cael ei dorri o gwmpas arwyddion a manau bychain eraill. Y clerch i gysylltu gyda'r Cyngor Sir.

[2.3] Coed gyferbyn a'r gwaith carffosiaeth yng Nglasfryn

Y clerch i gysylltu gyda Dŵr Cymru i geisio cael tacluso'r lleoliad.

[2.4] Llwybr Cyhoeddus/ Bwlch y Beudy

Y clerch i gysylltu gyda'r Cyngor Sir i geisio camfeydd [2] ar y llwybr.

Cadeirydd_____